| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad** | **10 Mai 2012** |
| **Pwnc** | **Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini 2011-12** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Dim yn berthnasol** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Rheolydd Sgriwtini** |

**Natur a rheswm am adrodd**
Nodi a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2011-12 (ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn) a phenodi Eiriolwr Sgriwtini o Mai 2012 – Mai 2013.

## A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw

1. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid cyflwyno Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini i'r Cyngor ar waith y pum Pwyllgor Sgriwtini.

2. Mae Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2011-12 yn cwmpasu gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini rhwng Cyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 12 Mai 2011 a 10 Mai 2012. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae'r Pwyllgorau Sgriwtini wedi bod yn ddigon ffodus i dderbyn cyfraniadau gan Aelodau a Swyddogion a hoffem ddiolch i bawb am eu cyfraniadau.

3. Mae Cadeiryddion y pum Pwyllgor Sgriwtini wedi arwain ar ddatblygu gwaith y Pwyllgorau Sgrwitini yn ystod y cyfnod hwn ac mae manylion llawn ynghlwm yn yr "Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2011-2012" sydd ynghlwm.

4. Penodwyd yr Eiriolwr Sgriwtini presennol gan y Cyngor ar adeg cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol blaenorol.

5. Gofynnir yn awr i'r Cyngor benodi Eiriolwr Sgriwtini o fis Mai 2012 i fis Mai 2013. Nid yw'r Eiriolwr Sgriwtini yn cael cydnabyddiaeth ariannol a gall ef/hi fod yn Aelod o'r Pwyllgor Gwaith neu ddim yn aelod ohono. Prif rôl yr Eiriolwr Sgriwtini yw:
    - Hyrwyddo'r swyddogaeth Sgriwtini yn y Cyngor a'r tu allan iddo
    - Cefnogi datblygiad parhaus Sgriwtini yn y Cyngor

| B - Ystyriaethau |
|---|
| Dim yn berthnasol. |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | Dim |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | Dim |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | Dim yn berthnasol |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Dim yn berthnasol |
| 6 | **Cydraddoldeb** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 8 | **Cyfathrebu** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 9 | **Ymgynghori** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 10 | **Economaidd** | Dim yn berthnasol |
| 11 | **Amgylcheddol** (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | Dim yn berthnasol |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn** | Dim yn berthnasol |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | (gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| **13** | **Cytundeb Canlyniadau** | Dim yn berthnasol |

**CH – Crynodeb**

Yn y man, bydd y Cyngor yn gorfod ystyried sut y bydd yn gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y swyddogaeth Sgriwtini. Bydd raid gweithredu ar Fesur Llywodraeth Leol Cymru yn fuan a bydd angen sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a phenodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Gobeithir y bydd Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2011-12 yn darparu gwybodaeth er mwyn cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu'r trefniadau newydd.

Mae Sgriwtini da ac effeithiol yn golygu perchenogaeth ac ymrwymiad parhaus ar ran yr Aelodau ac Uchel Swyddogion a gobeithir y bydd yr Adroddiad Blynyddol o gymorth yn hyn o beth hefyd.

**D – Argymhelliad**

1. Nodi a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2011-12
2. Penodi Eiriolwr Sgriwtini o Mai 2012 – Mai 2013

**Enw awdur yr adroddiad: Tîm Sgriwtini**
**Dyddiad: 30.04.12**

**Atodiadau:**

Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2011-12

**Papurau Cefndirol:**

- Cyfarfodydd ailymgysylltu Mehefin i Awst 2011 - 10 canlyniad i Sgriwtini
- Adolygiad CLlLC o Sgriwtini Ynys Môn, Awst 2011 – 17 o argymhellion
- Data Perfformiad Sgriwtini drwy Ffynnon 2011-12
- Papurau gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini unigol yn cynnwys rhaglenni, papurau a chofnodion pwyllgorau

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# TROSOLWG A SGRIWTINI

Mai 2011-Mai 2012



# CYNNWYS


1. Cefndir — Tudalen 3
2. Beth yw Trosolwg a Sgriwtini — Tudalen 3
3. Perfformiad Sgriwtini — Tudalen 5
4. Cerrig Milltir Sgriwtini — Tudalen 7
5. Ymgysylltiad Sgriwtini — Tudalen 8

6. Pwyllgorau Sgriwtini:

Corfforaethol — Tudalen 9
Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol — Tudalen 11
Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo — Tudalen 13
Addysg a Hamdden — Tudalen 15
Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol — Tudalen 17

Atodiadau:

*Atodiad 1: Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau Sgriwtini*
*Atodiad 2: Atodlenni Canlyniadau Gwaith Pwyllgorau Sgriwtini*
*Atodiad 3: Panelau Adolygu'r Pwyllgorau Sgriwtini*

## 1. CEFNDIR

1.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini (Pwyllgorau Sgriwtini) adrodd i'r Cyngor llawn bob blwyddyn.

1.2 Cytunwyd strwythur cyfredol y Pwyllgorau Sgriwtini yn y cyfarfod o'r Cyngor llawn ar 11 Mai 2012. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed gan bum Pwyllgor Sgriwtini'r Cyngor rhwng Mai 2011 a Mai 2012.

1.3 Ar 18 Mawrth 2011, penododd y Gweinidog ar gyfer Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol bum Comisiynydd i fod yn gyfrifol am swyddogaethau gwneud penderfyniadau Gweithredol Cyngor Sir Ynys Môn.

1.4 Mae'r Comisiynwyr yn parhau i ymarfer cyfrifoldebau a neilltuwyd gynt i'r Pwyllgor Gwaith, ond maent wedi dilyn proses o ailymgysylltu graddol gyda Phwyllgor Gwaith Cysgodol (a benodwyd gan Arweinydd y Cyngor) a chyda'r Aelodau eraill.

1.5 Mae'r pum Pwyllgor Sgriwtini yn parhau i weithredu yn y Cyngor.

1.6 Ni chaiff Aelod o'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol fod yn Aelod o Bwyllgor Sgriwtini.

## 2. BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI

2.1 Mae Pwyllgorau Sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gweithredu. Yn ogystal â sefydlu Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau, roedd Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi bod rhaid sefydlu o leiaf un Pwyllgor Sgriwtini i ddal y Pwyllgor Gwaith yn atebol ac i chwarae rôl o ran datblygu ac adolygu polisïau.

2.2 Yn Ynys Môn gweithredir y swyddogaeth Trosolwg a Sgriwtini gan:

1) Y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
2) Y Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol
3) Y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo
4) Y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden
5) Y Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol

2.3 Mae bod yn Aelod o Bwyllgor Sgriwtini wedi ei ddisgrifio fel "*potentially the most exciting element of the entire local government modernisation process".* [1]

[1] Snape. S., Leach. S. and Copus. C. (2002), *The Development of Overview and Scrutiny in Local Government*, ODPM, p13

2.4 Dylid nodi na chaiff Aelod sgriwtineiddio penderfyniad y maent wedi bod yn ymwneud ag o yn uniongyrchol.

2.5 Nodau'r Pwyllgorau Sgriwtini yw:

- Hyrwyddo gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw a dal y rheini sy'n gwneud y penderfyniadau yn atebol mewn modd adeiladol.
- Cefnogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth ar gyfer y sir a'i nodau a'i flaenoriaethau strategol.
- Hyrwyddo gwelliant parhaus, arferion gorau ac arloesi yn y gwasanaethau, y swyddogaethau a'r polisïau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt neu y mae ganddo ddylanwad drostynt.

2.6 Mae'n bwysig sylweddoli nad cyrff sy'n gwneud penderfyniadau yw Pwyllgorau Sgriwtini, ond cyrff sy'n cyflwyno argymhellion i gyrff sydd yn gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, mae mwy o Aelodau Sgriwtini nag Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol a dylid nodi bod ganddynt ddylanwad sylweddol ar sut y mae'r Cyngor yn gweithredu.

2.7 Gall Pwyllgorau Sgriwtini wneud eu gwaith yn unrhyw un o'r ffyrdd isod

- Ystyried pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol.
- Ystyried pwnc dros gyfnod hwy trwy sefydlu Panel Adolygiad Sgriwtini.
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar fater penodol.
- Ymweld â safleoedd.

2.8 Mae'r Pwyllgorau wedi sefydlu nifer o Banelau Adolygiad Sgriwtini (Gweler Atodiad 3 os gwelwch yn dda).

2.9 Gall cais i gynnwys eitemau ar Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini ddod gan unrhyw Aelod neu ddinesydd, ond mae'n bwysig cofio na all y Pwyllgorau ymchwilio i gwynion unigol. Ymhellach, oherwydd y cyfyngiad ar adnoddau i'r Pwyllgorau Sgriwtini, mae prawf arwyddocâd wedi ei sefydlu (a gynhelir gan y Cadeirydd a'r Rheolydd Sgriwtini) i fod o gymorth i gynllunio gwaith y Pwyllgor.

2.10 Yn ogystal, ymatebodd y Pwyllgorau, cyn gynted ag yr oedd y rhaglen waith yn caniatáu, i geisiadau gan y Cyngor ac, os oedd yn credu bod hynny'n briodol, i geisiadau gan y Pwyllgor Gwaith, i adolygu meysydd penodol o weithgareddau'r Cyngor. Lle gwnaed hynny, adroddodd y Pwyllgorau yn ôl ar eu canlyniadau ac unrhyw argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ac/neu'r Cyngor.

## 3. PERFFORMIAD SGRIWTINI

3.1 Mae Adroddiad Blynyddol yn hanes o stiwardiaeth dros gyfnod penodol ac yn canolbwyntio'r meddwl ar yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni a'r hyn y mae angen ei wneud. Mae'r Cyngor wedi cytuno i symud ymlaen mewn ffordd fodern a chan weithredu'n fwy fel busnes trwy dderbyn Fframwaith Rheoli Perfformiad. Hwn yw'r catalydd sydd wedi gyrru'r Adain Sgriwtini i ddefnyddio ei Ddangosyddion Perfformio newydd, a sefydlwyd ar yr un pryd ag y cychwynnodd y tîm newydd ei waith ym mis Tachwedd 2010, i reoli'r ffordd ymlaen ar gyfer sgriwtini.

| Teitl y Dangosydd | Targed<br>(Ch) – Chwarterol<br>(B) – Blynyddol | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 4 | Diwedd y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| % presenoldeb Aelodau mewn Pwyllgorau Sgriwtini | 80% (Ch) | 69% ↓ | 76% ↑ | 78% ↑ | 75% ↓ | 75% |
| Presenoldeb Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion mewn cyfarfodydd briffio | 95% (Ch) | 90% ↓ | 100% ↑ | 100% ↔ | 100% ↔ | 98% |
| % o argymhellion Pwyllgorau Sgriwtini a gymeradwywyd gan y Bwrdd Comisiynwyr | 90% (Ch) | 100% ↑ | 100% ↔ | 100% ↔ | 100% ↔ | 100% |
| Nifer y cyfarfodydd a gafwyd rhwng Cyfarwyddwyr/Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion Sgriwtini mewn perthynas â Chynlluniau Gwaith Sgriwtini | 90% (Ch) | 90% ↓ | 100% ↑ | 100% ↔ | 100% ↔ | 98% |
| Nifer y mathau o eitemau ar y rhaglen: Ymgynghorol | 5 (B) | 11 ↑ | 13 ↑ | 8 ↓ | 16 ↑ | 48 |
| Nifer y mathau o eitemau ar y rhaglen: Monitro | 5 (B) | 11 ↑ | 9 ↓ | 9 ↔ | 3 ↓ | 32 |
| Nifer y mathau o eitemau ar y rhaglen: Ymchwiliol | 5 (B) | 1 ↓ | 4 ↑ | 2 ↓ | 3 ↑ | 10 |
| Nifer y mathau o eitemau ar y rhaglen: Cyn-Sgriwtini | 5 (B) | 2 ↑ | 4 ↑ | 9 ↑ | 6 ↓ | 21 |
| % o bresenoldeb Aelodau mewn Sesiynau Datblygu Sgriwtini | 95% (Ch) | 78% ↓ | 68% ↓ | n/a | n/a | 73% |
| Nifer yr eitemau o'r Cynllun Gwella sydd ar Raglenni'r Pwyllgorau Sgriwtini (Cyfanswm) | 5 (B) | 0 ↓ | 0 ↔ | 0 ↔ | 11 ↑ | 11 |

| Teitl y Dangosydd | Targed (Ch) – Chwarterol (B) – Blynyddol | Chwarter 1 | Chwarter 2 | Chwarter 3 | Chwarter 4 | Diwedd y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr Adolygiadau Sgriwtini (Grwpiau Tasg a Gorffen) a gynhelir bob blwyddyn (Cyfanswm) | 5 (B) | **0** ⇩ | **1** ⇧ | **4** ⇧ | **0** ⇩ | **5** |
| Nifer y grwpiau dinasyddion/cymunedol sy'n cymryd rhan mewn Sgriwtini bob blwyddyn | d/b | 51 | 2 | 258 | 8 | 319 |
| Nifer yr ymweliadau a Thudalennau Sgriwtini ar y We | d/b | **2,982** | **1,650** | **2,957** | **2,600** | **10,189** |

3.2 O'r dangosyddion perfformio uchod gwelir un maes siomedig, sef presenoldeb Aelodau Sgriwtini. Fodd bynnag, gyda'r holl ddata perfformiad, data meintiol a data ansoddol yw'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chymryd i ystyriaeth i gael at wraidd y wybodaeth honno ac i'w deall. Mae'r Rheolydd Sgriwtini wedi gwrando ar bryderon yr Aelodau Sgriwtini ynghylch y nifer gynyddol o gyfarfodydd y mae gofyn iddynt eu mynychu a'r pwysau cynyddol arnynt yn sgil gweithredu Mesur Llywodraeth Leol Cymru. Yn ei hanfod, bydd Aelodau Sgriwtini yn cadw eu gwaith yn y wardiau ac yn y sir, ond maent yn cael eu hannog hefyd i chwarae mwy o rôl gymunedol ar lefelau isranbarthol a rhanbarthol.

3.3 Mae'r ddwy elfen hyn yn rhoi sail ar gyfer sgriwtini i'r dyfodol, fel rhaglennu ar gyfer datblygu aelodau oherwydd bod angen deall pynciau cyn iddynt gael eu sgriwtineiddio. Bydd angen i Aelodau Sgriwtini ddeall y dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaeth (e.e. comisiynu, gweithio mewn partneriaeth yn isranbarthol ac yn rhanbarthol). Gyda hyn, bydd angen i'r strwythur sgriwtini newid i adeiladu capasiti i barhau i sgriwtineiddio'r adroddiadau ariannol / perfformiad chwarterol newydd yn fewnol a hefyd i sgriwtineiddio cyrff sector cyhoeddus yn allanol (e.e. y Gwasanaethau Iechyd a Thân a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd newydd). I baratoi ar gyfer 'Sgriwtini ar y Cyd' gydag aelodau sgriwtini o awdurdodau cyfagos.

3.4 Mae'r Dangosyddion Perfformiad Sgriwtini hefyd yn dangos bod gan y Pwyllgorau Sgriwtini orgyflenwad o eitemau yn dod gan y Cyfadrannau ynghylch ymgynghori. Nid tŷ clirio yw sgriwtini ac ni ddylem fod yn defnyddio ei gapasiti cyfyngedig i nodi adroddiadau. Yn y flwyddyn nesaf, bydd Pwyllgorau yn ceisio sicrhau gwell cydbwysedd o eitemau ar raglenni sgriwtini. Bydd raid derbyn rhai adroddiadau ymgynghorol er gwybodaeth yn hytrach na chymryd lle eitemau pwysicach fel monitro perfformiad / ariannol, materion ymchwilio ac eitemau cyn-sgriwtini. Ar hyn o bryd, nid yw sgriwtini'n canolbwyntio'n ddigonol ar ganlyniadau a dal y Comisiynwyr a'r Pwyllgor Gwaith cysgodol i gyfrif. Mae'n bwysig bod rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Sgriwtini wedi eu haleinio i:

- Blaenraglen waith y Comisiynwyr / Pwyllgor Gwaith Cysgodol
- Blaenoriaethau Corfforaethol
- Y Cynllun Cymunedol.

3.5 Rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried sut y bydd yn gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd sy'n cael effaith ar y swyddogaeth Sgriwtini. Mae cyfleoedd amlwg ar gael yn awr i gael Sgriwtini a Throsolwg sy'n fwy effeithiol ac mae angen i'r Cyngor sicrhau y gall roi ei hun mewn sefyllfa i gyflawni'r potensial hwn. Bydd hyn yn golygu bod rhaid i aelodau ac uwch swyddogion barhau i gymryd perchenogaeth o'r fath faterion ac ymrwymo iddynt wrth siapio datblygiadau ac arloesi i'r dyfodol.

## 4. CERRIG MILLTIR SGRIWTINI

4.1 Dros y 12 mis diwethaf, mae'r swyddogaeth Sgriwtini yn Ynys Môn wedi cyrraedd nifer o gerrig milltir bwysig sydd wedi cynorthwyo i sefydlu Sgriwtini sydd yn fwy trwyadl a rhagweithiol. Mae'r cerrig milltir hyn yn cynnwys:

- **Adolygiad Cyffyrddiad Ysgafn CLlLC –** yn ein hymdrechion i barhau i wella, gwahoddwyd CLlLC gan y swyddogaeth Sgriwtini i gynnal adolygiad Cyffyrddiad Ysgafn ym mis Mehefin 2011. O ganlyniad i'r adolygiad, cyflwynwyd 17 o argymhellion a fydd o gymorth i gryfhau Sgriwtini yn Ynys Môn.
- **Llythyr Newyddion Sgriwtini -** mae'r tîm Sgriwtini wedi datblygu llythyr newyddion a ddosbarthwyd yn ystod y sesiynau ymgynghori ar y Cynllun Busnes Corfforaethol. Mae'r llythyr newyddion hwn yn rhoi gwybodaeth bwysig i'r cyhoedd ynghylch rôl Sgriwtini yn yr awdurdod, a'r gwaith pwysig sy'n cael ei wneud ar ran y cyhoedd gan yr Aelodau nad ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith.
- **Gwefan Sgriwtini** - Mae tudalennau gwe yr Awdurdod wedi eu diweddaru ac maent bellach yn cynnwys gwybodaeth am y gwahanol Bwyllgorau Sgriwtini a'i gwaith.
- **Llawlyfr Sgriwtini –** mae'r Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Gwaith wedi cael llawlyfr pwrpasol sy'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth am eu swyddogaethau fel Aelodau Sgriwtini.
- **Hyfforddiant –** yn ystod 2011/12, cyflwynodd yr Uned Sgriwtini nifer o sesiynau hyfforddi i Aelodau nad ydynt yn gwasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith. Roedd y sesiynau hyn yn amrywio o hyfforddiant ar sgriwtineiddio cyllidebau, comisiynu, ac arferion gorau ar gyfer Panelau Adolygiad Sgriwtini. Er bod nodau penodol y sesiynau unigol yn amrywio, yr amcan sylfaenol oedd datblygu gwybodaeth aelodau am nifer o feysydd gwahanol, gan gynorthwyo i wella effeithiolrwydd Sgriwtini'n gyffredinol yn yr Awdurdod.
- **Llawlyfr Sgriwtineiddio'r Gyllideb -** Ochr yn ochr â'r hyfforddiant a ddarparwyd i Aelodau yn ystod y flwyddyn, datblygwyd Llawlyfr Sgriwtineiddio'r Gyllideb, a oedd yn cynnwys nifer o arferion gorau o Awdurdodau Lleol ledled y Deyrnas Gyfunol. Mae'r llawlyfr hwn yn awgrymu model ar gyfer Sgriwtineiddio'r Gyllideb yn seiliedig ar yr arferion gorau hyn, ac er na chafodd y model ei weithredu'n llawn yn 2011/12, dyma'r enghraifft y bydd raid i ni geisio ymgyrraedd ati yn 2012/13.

- **Strategaeth Gyfathrebu** – Datblygwyd y strategaeth Gyfathrebu er mwyn codi proffil Sgriwtini yn fewnol ac yn allanol fel ffordd o wella ei effeithiolrwydd.

Mae'r holl lwyddiannau uchod wedi cyfrannu at wella effeithiolrwydd y swyddogaeth Sgriwtini, ac yn dangos y cyfraniadau cadarnhaol a wnaed gan Aelodau a Swyddogion tuag at gryfhau Sgriwtini yn Ynys Môn.

## 5. YMGYSYLLTIAD SGRIWTINI

5.1 Mae sylwadau a syniadau'r cyhoedd a sefydliadau eraill a chanddynt ddiddordeb mewn pwnc sydd dan sylw yn werthfawr ar gyfer Sgriwtini effeithiol.

5.2 Mae Sgriwtini arfer dda fel arfer yn golygu Aelodau yn gweithio gyda sefydliadau a phobl leol i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac ymatebol.

5.3 Bydd Pwyllgorau Sgriwtini yn cyfarfod yn gyhoeddus (ac eithrio lle trafodir materion cyfrinachol) ac mae dyddiadau a lleoliad y cyfarfodydd a'r blaenraglenni gwaith oll ar gael ar wefan y Cyngor yn: www.ynysmon.gov.uk

5.4 Gellir hefyd wahodd partneriaid ac asiantaethau allanol i ddod i Bwyllgorau Sgriwtini fel bod modd i'r Pwyllgor ofyn am eu sylwadau a'u hadborth ar faterion sy'n cael effaith ar sut y cyflawnir yr amcanion corfforaethol.

5.5 I ddarganfod mwy am Sgriwtini yn Ynys Môn neu i wneud sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'r Tîm Sgriwtini yn:

Tîm Sgriwtini,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor.
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW
Scrutiny@ynysmon.gov.uk

5.6 Swyddogion y Tîm Sgriwtini:

| | | |
|---|---|---|
| Bev Symonds | Rheolydd Sgriwtini | 01248752078 |
| Geraint Wyn Roberts | Swyddog Sgriwtini yn gyfrifol am:<br>• Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 01248752039 |
| Carl Thomas | Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini sy'n gyfrifol am:<br>• Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol;<br>• Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo | 01248 752084 |
| Gareth Bayley-Hughes | Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini sy'n gyfrifol am:<br>• Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden;<br>• Pwyllgor Sgriwtini Yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | 01248752079 |

## 6. PWYLLGORAU SGRIWTINI

### 6.1 Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

#### 6.1.1 Aelodaeth 2011-12

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Y Cynghorydd Selwyn Williams (Cadeirydd) | Tysilio | Llais i Fôn |  | Y Cynghorydd Eric Roberts (Vice Chair) | Trearddur | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Eurfryn Davies | Cwm Cadnant | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd Derlwyn Hughes | Moelfre | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd William Hughes | Bodffordd | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd William T Hughes | Llanbadrig | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Dylan Jones | Porth Amlwch | Llafur |  | Y Cynghorydd Eric Jones | Llanfihangel Ysgeifiog | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Peter Rogers | Rhosyr | Digyswllt |  | Y Cynghorydd Hefin Wyn Thomas | Pentraeth | Digyswllt |
|  | Y Cynghorydd Ieuan Williams | Brynteg | Digyswllt |  | Y Cynghorydd John Penri Williams | Gwyngyll | Plaid Cymru |

## ASTUDIAETH ACHOS – CYLLIDEB GORFFORAETHOL 2012-13

Fel rhan o'r Ymarfer Ymgynghori ar gyfer Pennu Cyllideb 2012 / 2013, cyflwynodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ei sylwadau a'i adborth i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Chwefror 2012, gan awgrymu meysydd i'w hystyried cyn cyflwyno'r Gyllideb derfynol am 2012-2013 i'r Cyngor Llawn.

Pennwyd Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012 / 2013 ar adeg o gynnwrf economaidd na welwyd ei fath o'r blaen. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad o 1.2% yn y Cyllid Allanol Cyfun am y flwyddyn ariannol 2012 / 2013.

Roedd Cyllideb Ddrafft a Datganiad Strategaeth y Comisiynwyr yn darparu canllawiau penodol ynghylch yr hyn yr oeddent yn dymuno i Sgriwtini ei ystyried fel rhan o'r broses o ymgynghori ar y gyllideb. Y meysydd hynny oedd:

- Yr amcanion polisi ym mharagraff 5 eu hadroddiad;
- Diogelu a sicrhau cynnydd o 1% i'r ysgolion (paragraff 3.3 eu hadroddiad);
- Diogelu a sicrhau cynnydd o 1% ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol (paragraff 3.3 eu hadroddiad);
- Arbedion effeithlonrwydd incwm, angen iddynt fod yn uwch na'r gyfradd chwyddiant
- Rhagdybiaethau mewn perthynas â chwyddiant a risgiau eraill;
- Y ffordd ymlaen ar faterion AD;
- Sylwadau cychwynnol ar lefel y Dreth Gyngor;
- Sylwadau cychwynnol ar falansau ac arian wrth gefn .

Roedd yr ymateb Sgriwtini i gyllideb 2012 / 2013 yn seiliedig ar y themâu eang hyn.



Casglodd y Pwyllgorau Sgriwtini wybodaeth gan y Gwasanaethau unigol a'r Adran Gyllid i benderfynu'r heriau a'r cyfleon gwirioneddol o gwmpas cyllideb yr Awdurdod am 2012 / 2013.

Er mwyn sicrhau proses agored a thryloyw, casglwyd holl sylwadau'r Pwyllgorau Sgriwtini a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w dwyn ynghyd ar ffurf adroddiad Sgriwtini gan yr holl Bwyllgorau. Roedd hyn yn sicrhau bod sylwadau'r holl Bwyllgorau Sgriwtini wedi eu hymgorffori yn yr adroddiad.

O ganlyniad i'r asesiad cyffredinol a wnaed, nododd y Pwyllgorau Sgriwtini 12 o brif argymhellion a 3 o argymhellion atodol. Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, y Cynghorydd Selwyn Williams adroddiad ar yr argymhellion hyn i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Chwefror ac fe gymerodd y Comisiynwyr yr argymhellion hynny i ystyriaeth wrth gwblhau'r gyllideb yn derfynol.

## 6.2 Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol

### 6.2.1 Aelodaeth 2011-12

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Y Cynghorydd John Penri Williams (Cadeirydd) | Gwyngyll | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd Dylan Jones (Is-Gadeirydd) | Amlwch Port | Llafur |
|  | Y Cynghorydd William T Hughes | Llanbadrig | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Y Cynghorydd Eric Jones | Llan-fihangel Ysgeifiog | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd J V Owen | Parc a'r Mynydd | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Y Cynghorydd R L Owen | Biwmares | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Lewis Davies | Llangoed | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd Robert Lloyd Hughes | Bodorgan | Llais i Fôn |
|  | Y Cynghorydd Elwyn Schofield | Llannerch-Y-Medd | Digyswllt | | | | |

**ASTUDIAETH ACHOS - SUT Y CYFRANNODD Y PWYLLGOR AT SGRIWTINI A DATBLYGU POLISÏAU**

Ymgymerodd y Pwyllgor a'i brif rôl Sgriwtini trwy ystyried nifer o eitemau gwahanol yn ei gyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn. Gellir gweld rhestr o'r eitemau a gafodd sylw a'r canlyniadau yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

Yn ogystal â rhoi sylw i eitemau mewn cyfarfodydd ffurfiol, sefydlodd y Pwyllgor hefyd ddau Banel Adolygiad Gwasanaeth i edrych yn fanwl ar yr isod:

- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol (Blwyddyn 2)
- Ffioedd a Thaliadau Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Roedd y gwaith a wnaed gan y ddau Banel yn golygu Aelodau yn cwrdd â swyddogion perthnasol yn rheolaidd er mwyn rhoi sylw i faterion sy'n codi.

Arweiniodd gwaith y ddau Banel yn y pen draw at gytuno i argymell i'r Comisiynwyr bod yr adroddiadau terfynol ar y materion hyn yn cael eu derbyn yn llawn.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi ceisio ychwanegu gwerth a chyfrannu at sawl maes datblygu polisi mewn ffordd adeiladol.  Mae'r Pwyllgor wedi ystyried amrywiaeth o faterion, megis datblygu'r Strategaeth Pobl Hŷn a'r Cynllun Morgais Awdurdodau Lleol.

Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion a oedd yn ymwneud â datblygu'r Strategaeth Pobl Hŷn, ymwelodd y Pwyllgor Sgriwtini a Phenucheldre (datblygiad tai gofal ychwanegol) yng Nghaergybi a'r Ganolfan Heneiddio'n Dda yn Amlwch.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ceisio gweithio ochr yn ochr â'n swyddogion i ddatblygu ymagwedd sy'n cynyddu gwybodaeth yr Aelodau am fentrau polisi a goblygiadau statudol. Hyd yma, mae hyn wedi golygu sefydlu:

- Grŵp Mentora Gwasanaethau Oedolion - Wedi cyfarfod saith gwaith i ychwanegu at ddealltwriaeth o rai materion.
- Sesiynau datblygu anffurfiol i holl Aelodau'r Pwyllgor - wedi cyfarfod dwywaith i dderbyn gwybodaeth ar:
    - Materion Iechyd Meddwl
    - Recriwtio Diogel
    - Diogelu Oedolion Bregus
    - Diogelu Plant Bregus

Gellir crynhoi'r trefniadau fel a ganlyn:

**Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol** - Gwneud argymhellion i'r Comisiynwyr

**Panelau Adolygiad Sgriwtini** – Ystyried materion yn fanylach a chyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor

**Sesiynau Mentora a Datblygu Anffurfiol** – Datblygu gwybodaeth am fentrau polisi a chyfrifoldebau statudol.

## 6.3 Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo

### 6.3.1 Aelodaeth 2011-12

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Y Cynghorydd John V Owen (Cadeirydd) | Parc A'r Mynydd | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Y Cynghorydd Elwyn Schofield (Is-Gadeirydd) | Llannerch -Y-Medd | Digyswllt |
|  | Y Cynghorydd Richard Dew | Rhosneigr | Llais i Fôn |  | Y Cynghorydd Barrie Durkin | Llanbedr-goch | Digyswllt |
|  | Y Cynghorydd Clifford Everett | Tref Caergybi | Llafur |  | Y Cynghorydd Aled Morris Jones | Llaneilian | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Rhian Medi | Cyngar | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd Gareth Winston Roberts OBE | Amlwch Wledig | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd John Penri Williams | Gwyngyll | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd Selwyn Williams | Tysilio | Llais i Fôn |

**<u>ASTUDIAETH ACHOS – PANEL ADOLYGIAD SGRIWTINI – EFFEITHLONRWYDD INCWM O FFIOEDD LANSIO A CHOFRESTRU</u>**

Yn dilyn derbyn <u>ffurflen cais gan Aelod i ystyried eitem ar gyfer Trosolwg a Sgriwtini,</u> sefydlodd y **Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo** Banel Adolygiad Sgriwtini i ymchwilio i Gynllun Lansio a Chofrestru Arforol y Cyngor.

Cwblhawyd ffurflen 'Prawf Arwyddocâd', ac ar ôl rhoi sylw gofalus i'r mater, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo sefydlu Panel i roi sylw pellach i'r pwnc.

Roedd aelodaeth y Panel fel a ganlyn:

- Y Cynghorydd John V Owen (fel Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo))
- Y Cynghorydd Richard Dew

- Y Cynghorydd Eric Roberts (wedi ei gyfethol fel yr aelod a gododd y mater yn y lle cyntaf)
- Y Cynghorydd Selwyn Williams

Canolbwyntiodd y Panel ar y profiad i ddefnyddwyr y gwasanaeth, sef defnyddwyr lleol ac ymwelwyr. Roedd y Panel yn ystyried ei bod yn briodol adolygu'r gwasanaeth a ddarperir gyda golwg ar wella'r profiad i'r defnyddwyr a phenderfynwyd ehangu maes y gwaith ymchwil er mwyn rhoi sylw i'r rhai o'r gwasanaethau a gynigir i dwristiaid.

Cyfarfu'r Panel nifer o weithiau dros gyfnod o chwe mis gan roi sylw i nifer o feysydd. Casglodd y Panel dystiolaeth trwy holi aelodau allweddol o'r staff Arforol, a chafwyd gwybodaeth am ganfyddiad y cyhoedd o'r gwasanaeth trwy ddosbarthu holiaduron mewn safleoedd lansio penodol ledled y Sir.

O ganlyniad i'w hymchwiliadau, roedd y Panel yn gallu dod i nifer o gasgliadau perthnasol yn unol â'r cylch gorchwyl. Er enghraifft, casglodd y Panel bod y gwasanaeth lansio a chofrestru yn gweithredu'n effeithiol ac o fewn cyllideb sy'n gostwng yn barhaus. Ymhellach, roedd y Panel yn cymeradwyo'r disgownt a gynigir gan yr Awdurdod, oherwydd bod cynnig disgownt o'r fath yn gyson gyda'r rheswm gwreiddiol dros sefydlu'r cynllun a'i fod yn annog perchenogion cychod i gael hyfforddiant ar sut i drin cychod pŵer ac ennill cymhwyster perthnasol, er budd gwella diogelwch yn y dŵr.



Ar ôl dadansoddi'r holiaduron, roedd yn drawiadol gweld bod nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dychwelyd i Ynys Môn i lansio o lithrfa yr oeddynt wedi eu defnyddio gynt. Ymddengys mai'r prif bryder oedd rhwyddineb parcio ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, a'r costau cysylltiedig, a cheisiodd argymhellion y Panel roi sylw i'r materion hyn.

## 6.4 Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden

### 6.4.1 Aelodaeth 2011-12

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Y Cynghorydd Derlwyn Hughes (Cadeirydd) | Moelfre | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Y Cynghorydd Jim Evans (Is-Gadeirydd) | Braint | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Dylan Jones | Porth Amlwch | Llafur |  | Y Cynghorydd Eric Roberts | Trearddur | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Ieuan Williams | Brynteg | Digyswllt |  | Y Cynghorydd Richard Dew | Rhosneigr | Llais I Fon |
|  | Y Cynghorydd Lewis Davies | Llangoed | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd Gwilym O Jones | Llanfair yn Neubwll | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Robert Ll. Jones | Porthyfelin | Digyswllt |  | Y Cynghorydd Fflur Hughes | Cefni | Plaid Cymru |

**ASTUDIAETH ACHOS – DYRANIAD YSGOL Y BONT**

Yn ystod y cyfarfod o'r Cyngor llawn a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2011, cafwyd trafodaeth ar y dyraniad cyllidebol ar gyfer blwyddyn ariannol 2011/12. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, ystyriwyd diwygio'r gyllideb a gwnaed ychwanegiad i Gymal 1(g) y penderfyniad drafft fel a ganlyn:



*"Gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden, fel rhan o'u rhaglen waith ar gyfer 2011, adolygu'r dyraniad cyllidebol rhwng sectorau ysgolion gyda chyfeiriad arbennig at Ysgol y Bont gyda golwg ar weithredu unrhyw newid yng nghyllideb 2012-13 ac,*

*yn y cyfamser, bydd y Cyngor yn trosglwyddo'r swm o £70k ar sail unwaith ac am byth yn 2011-12 o'r arian wrth gefn cyffredinol i Ysgol y Bont..."*

Yn ei gyfarfod ar ddydd Mercher 9 Mawrth 2011, cytunodd y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden bod y mater yn un o bwys ac o'r herwydd, y dylai Panel Adolygiad Sgriwtini ymchwilio'n fanwl iddo er mwyn darparu'r argymhellion gorau posibl ar gyfer y dyfodol.

Aelodau'r Panel Adolygiad Sgriwtini oedd:

- Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes;
- Y Cynghorydd Richard Dew;
- Y Cynghorydd Eric Roberts;
- Y Cynghorydd Fflur Hughes

gyda chefnogaeth ychwanegol gan y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini, y Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) a nifer o Swyddogion o Adran Gyllid yr Awdurdod.

Amcanion y Panel oedd:

- Ystyried y sefyllfa gyfredol o ran cyllideb Ysgol y Bont, sef y balansau, tanwariant/gorwariant ac ati a nodi a oedd angen gwirioneddol i neilltuo swm ychwanegol o arian.
- Gwneud argymhellion ynghylch rheoli'r dyraniad cyllidebol yn well.

Ar ddiwedd ei ymchwiliadau, nododd y Panel Adolygiad Sgriwtini, heb sicrwydd o unrhyw gymorth grant yn ystod y flwyddyn, roedd angen dyraniad ychwanegol o £70,000 gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2011/12 yn seiliedig ar y ffigyrau arwyddol. Fodd bynnag, derbyniwyd y gallai'r diffyg hwn, oherwydd y tueddiad hanesyddol i fod ag arian ar ôl ar ddiwedd y flwyddyn, droi'n swrplws o bosib.

Yn dilyn cyflwyno adroddiad y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden ar Ddyraniad Cyllidebol Ysgol y Bont am 2011/12 i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 9 Ionawr 2012, datgelodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) y rhagwelwyd yn awr y byddai gwarged ar falansau'r ysgol am 2011/12. Gyda'r wybodaeth newydd hon, a hynny'n bennaf oherwydd yr amser a aeth heibio rhwng diwedd yr ymchwiliad ac amser cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr, roedd yr holl bartïon yn cytuno na fu angen y £70,000 ychwanegol ar gyfer yr ysgol wedi'r cyfan.

Yn ogystal, gwnaeth y Panel yr argymhelliad canlynol a gymeradwywyd gan y Bwrdd Comisiynwyr ar 16 Mawrth 2012:

Mae angen i'r Adran Addysg ymchwilio ymhellach i'r fformiwla cyllido a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol eraill ar draws Gogledd Cymru wrth ddyrannu cyllid i'w

hysgolion arbennig. Mae angen cydweithio ymhellach gydag awdurdodau lleol cyfagos yng Ngogledd Cymru o ran datblygu fformiwla cyllido newydd.

Bydd yr holl argymhellion a wnaed yn cael eu monitro o ran cynnydd yn ystod 2012/13.

## 6.5 Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol

### 6.5.1 Aelodaeth 2011-12

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Y Cynghorydd Keith Evans (Cadeirydd) | Cadnant | Digyswllt |  | Y Cynghorydd Richard L Owen (Is-Gadeirydd) | Biwmares | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd William T Hughes | Llanbadrig | Annibynwyr Gwreiddiol |  | Y Cynghorydd Eric Roberts | Trearddur | Annibynwyr Gwreiddiol |
|  | Y Cynghorydd Rhian Medi | Cyngar | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd Raymond Jones | Ffordd Llundain | Llafur |
|  | Y Cynghorydd Lewis Davies | Llangoed | Plaid Cymru |  | Y Cynghorydd J Arwel Roberts | Morawelon | Llafur |
|  | Y Cynghorydd Selwyn Williams | Tysilio | Llais i Fôn | | | | |

**ASTUDIAETH ACHOS – PANEL ADOLYGIAD SGRIWTINI – DARPARU TOILEDAU CYHOEDDUS YN YNYS MÔN I'R DYFODOL**



Yn dilyn eitem ar raglen mewn perthynas â dyfodol y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn Ynys Môn yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2011, cytunodd y Pwyllgor Sgriwtini Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol gynnal Panel Adolygiad Sgriwtini i ymchwilio'r drylwyr i'r opsiynau a oedd ar gael i'r Awdurdod i gwrdd â'r targed o arbed £30,000 bob blwyddyn o'r gyllideb ar gyfer toiledau cyhoeddus ond gan sicrhau na fydd effaith andwyol ar fywydau'r cyhoedd.

Roedd y Panel Adolygiad Sgriwtini yn cynnwys:

- Y Cynghorydd Keith Evans;
- Y Cynghorydd Richard L Owen;
- Y Cynghorydd Eric Roberts;
- Y Cynghorydd William T Hughes

Gyda chymorth ychwanegol gan y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini, y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Rheoli Gwastraff) a nifer o Swyddogion o'r Adain Rheoli Gwastraff.

Nod y Panel oedd cynorthwyo gyda'r broses o bwyso a mesur y ddarpariaeth gyfredol gan sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n addas i'r pwrpas ac yn y lleoliadau priodol.  Yn wir, edrychodd y Panel ar a oedd darpariaeth ormodol ar hyn o bryd mewn lleoliadau arbennig.

Roedd yn amlwg bod y ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn fater a fedr achosi pryder i rai carfanau o'r cyhoedd h.y. pobl hyn, pobl anabl ac ati.  Gyda golwg ar hynny, roedd angen i'r Panel adolygu'r holl dystiolaeth a oedd ar gael ynghylch y defnydd cyfredol o doiledau cyhoeddus, gan groesgyfeirio'r dystiolaeth honno yn erbyn unrhyw ddarpariaeth arall a oedd ar gael yn lleol.  Er yn bwnc sensitif ac yn un a oedd yn siŵr o achosi stŵr ymysg y cyhoedd pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i gau rhai toiledau, roedd yn dasg a oedd wedi ei gosod dan Raglen Blaenoriaethau Fforddiadwy'r Awdurdod ac roedd raid rhoi sylw iddi felly.

Wrth gynnal yr adolygiad, roedd yn bwysig bod y Panel yn cadw mewn cof mai mater i ddisgresiwn awdurdodau lleol yw darparu a chynnal toiledau mewn mannau cyhoeddus, a bod gan awdurdodau cyhoeddus, dan adran 87 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936, rym i ddarparu toiledau cyhoeddus ond nad oes dyletswydd arnynt i wneud hynny.  Mater i ddisgresiwn awdurdodau unigol yw a ddylid darparu'r cyfleusterau hyn ai peidio, a rhaid pwyso a mesur hynny yn erbyn galwadau am wasanaethau eraill yn lleol.

Mae costau ynghlwm â darparu toiledau cyhoeddus.  Mae angen ffrydiau cyllido nid yn unig i ariannu gwaith cynnal a glanhau sylfaenol, ond hefyd i dalu trethi, costau trydan, cyflenwad dwr, a chostau trin carthffosiaeth.  Fel y mae'r arolwg cyflwr yn nodi, gall bod angen uwchraddio toiledau hŷn i gwrdd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch modern, ac i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad rhwydd iddynt.  Ar yr un pryd, mae tystiolaeth o wahanol astudiaethau yn awgrymu ei bod hi'n well gan fwy a mwy o bobl ddefnyddio toiledau mewn adeilad sy'n cael ei reoli fel canolfannau siopa.

O'r herwydd, mae perygl bod Awdurdodau Lleol yn disgyn i gylch o ddirywiad lle mae defnydd isel ohonynt e.e. toiledau mewn ardaloedd pellennig neu unig; yn creu awyrgylch o esgeulustod, sy'n golygu nad yw'r cyhoedd yn eu defnyddio a'u bod yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol, graffiti a difrod troseddol sydd yn golygu mwy o gostau cynnal.  Ni ellir parhau gyda sefyllfa lle mae'r costau cynnal yn uchel neu'n codi a'r defnydd o'r toiledau yn lleihau.

Ar ôl i'r Panel gwblhau ei adolygiad o'r ddarpariaeth o doiledau cyhoeddus yn Ynys Môn, lluniwyd rhestr fer o saith lleoliad posib ar gyfer eu cau.  Y rhain yw: Brynsiencyn, Stryd Fawr Cemaes, Traeth Penrhos (Caergybi), Ynys Lawd (Caergybi), Llannerch-y-medd, Pier Porthaethwy a Niwbwrch.  Yn ogystal â'r rhestr fer hon, mae dau doiled cyhoeddus arall sydd wedi bod ar gau ers 2009 a 2007 - sef toiledau Sgwâr Dinorben (Amlwch) a Sgwâr Fictoria (Caergybi).

Ar 9 Ionawr 2012, cymeradwywyd y bwriad i gau'r toiledau gan Fwrdd Comisiynwyr Ynys Môn, gan ddarparu arbedion refeniw i'r Awdurdod o gwmpas **£32,471.14**.  Yn ogystal, cymeradwywyd yr argymhelliad i werthu'r asedau neu, oni fyddai modd gwneud hynny, dymchwel yr adeilad gan ddod a'r cyfanswm arbedion blynyddol i'r Awdurdod i fyny i **£60,381.03**.

**ATODIAD 1- CYLCH GORCHWYL PWYLLGORAU SGRIWTINI**

| ENW'R PWYLLGOR | CYLCH GORCHWYL |
|---|---|
| 1) PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL<br>( 12 Aelod)<br><br>Ynghyd ag aelodau cyfetholedig (gyda hawl i bleidleisio) pan yn delio gyda materion addysg | Defnydd gorau o staff, cyllid ac eiddo<br>– Polisi Corfforaethol<br>– Strategaeth Gymunedol<br>– Cwynion<br>– Proses y gyllideb gorfforaethol a'i monitro<br>– Systemau ariannol a gweinyddol<br>– Iechyd a Diogelwch<br>– TGCh<br>– Cynllun Gwella a'i fonitro<br>– Gwasanaethau cefnogi mewnol<br>– Cynllun Iaith<br>– Cytundebau canlyniadau<br>– Monitro perfformiad<br>– Pŵer galw-i-mewn<br>– Arloesedd gwasanaethau a chydweithredu<br>– Llywodraethu partneriaeth strategol<br>– Sgiliau'r gweithlu |
| 2) PWYLLGOR SGRIWTINI TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL<br>( 10 Aelod) | – Gwrthdlodi<br>– Budd-daliadau<br>– Gwasanaeth gofal a chefnogaeth bersonol<br>– Adfywio cymunedol<br>– Rhai difreintiedig<br>– Cyfleon cyfartal<br>– Byw'n Iach<br>– Tai<br>– Canolfan J E O'Toole<br>– Ystafell Fonitro (Gofal Môn a Chamerâu Gorchwylio)<br>– Diogelu pobl fregus<br>– Ansawdd bywyd<br>– Gwasanaethau Cymdeithasol |
| 3) PWYLLGOR ADDYSG A HAMDDEN<br>( 10 Aelod)<br><br>YNGHYD Â<br>Cynrychiolwyr yr eglwys a rhieni sy'n llywodraethwyr yn unol â pharagraffau 8-11 Atodlen 1 Deddf Llywodraeth Leol 2000 | – Archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd<br>– Diwylliant<br>– Addysg<br>– Dysgu Gydol Oes<br>– Hyfforddiant Môn<br>– Cyfleusterau chwaraeon a hamdden |

| | |
|---|---|
| | – Gwasanaethau Ieuenctid a Chymunedol |
| 4) PWYLLGOR SGRIWTINI YR AMGYLCHEDD A GWASANAETHAU TECHNEGOL (10 Aelod) | – Atal Trosedd a'r Pwyllgor Sgriwtini Trosedd ac Anhrefn Statudol<br>– Cynllunio mewn Argyfwng<br>– Iechyd Amgylcheddol<br>– Stiwardiaeth amgylcheddol<br>– Priffyrdd (yn cynnwys ffyrdd, strydoedd, pontydd, meysydd parcio, mynediad i'r cyhoedd<br>– Cynllunio Defnydd Tir<br>– Trwyddedu<br>– Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau<br>– Amddiffynfeydd Môr a Morwrol<br>– Cynaliadwyaeth<br>– Safonau Masnach<br>– Cludiant<br>– Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu |
| 5) PWYLLGOR SGRIWTINI DATBLYGU ECONOMAIDD, TWRISTIAETH AC EIDDO (10 Aelod) | – Busnesau lleol a chynhenid<br>– Isadeiledd par: cyllido adfywio economaidd<br>– Buddsoddi o'r tu allan<br>– Hyrwyddo adfywio economaidd<br>– Rheoli eiddo ac asedau<br>– Twristiaeth<br>– Sgiliau'r gweithlu (trwy'r Ynys) |

O fewn eu cylch gorchwyl, bydd Pwyllgorau Sgriwtini a Throsolwg yn:

- Adolygu a/neu sgriwtineiddio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor;
- Cyflwyno adroddiadau a/neu argymhellion i'r Cyngor llawn a/neu'r Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgor ar y Cyd neu Bwyllgor ardal mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;
- Ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion;
- Ymarfer yr hawl i alw i mewn, er mwyn ailystyried penderfyniadau a wnaed ond nad ydynt eto wedi eu gweithredu gan y Pwyllgor Gwaith a/neu unrhyw Bwyllgorau Ardal **[O.N. Nodwch os gwelwch yn dda bod y grym i alw penderfyniad i mewn wedi ei gyfyngu i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac ni ddylid ond ei ddefnyddio'n gynnil oherwydd y gallai olygu oedi gyda gweithredu polisi]**; a
- Cynnal adolygiadau dan Raglen Cymru ar gyfer Gwelliant ar y swyddogaethau sydd y tu mewn i'w faes priodol a chyflwyno adroddiadau ar y materion trwy'r Pwyllgor Gwaith i'r Cyngor.

O safbwynt eu swyddogaeth mewn perthynas â datblygu ac adolygu polisïau, gall Pwyllgorau Sgriwtini:

- Gynorthwyo'r Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu ei gyllideb a'i fframwaith polisi drwy ddadansoddiad manwl o faterion polisi;
- Gwneud ymchwil, ymgynghori gyda'r gymuned ac ymgynghori gydag eraill i ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;
- Ystyried a gweithredu mecanweithiau i annog a gwella cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o ddatblygu a dewisiadau posib;
- Holi aelodau'r Pwyllgor Gwaith a/neu bwyllgorau a Phrif Swyddogion am eu barn ar faterion ac argymhellion sy'n effeithio ar yr ardal; a
- Cysylltu â chyrff allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, bônt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, i hyrwyddo lles y bobl leol drwy weithio ar y cyd.

O safbwynt eu rôl sgriwtini, gall Pwyllgorau Sgriwtini

- Adolygu a sgriwtineiddio penderfyniadau a pherfformiad y Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a thros gyfnod o amser;
- Adolygu a sgriwtineiddo perfformiad y Cyngor mewn perthynas â'i amcanion polisi, targedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth arbennig;
- Holi aelodau'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion am eu penderfyniadau a'u perfformiad, p'un ai yn gyffredinol o gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau neilltuol;
- Gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor yn deillio o ganlyniadau'r broses sgriwtini;
- Adolygu a sgriwtineiddio perfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a gwahodd adroddiadau ganddynt drwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgor Sgriwtini a phobl leol i sôn am eu gweithgareddau a'u perfformiad; a
- Holi a chasglu tystiolaeth oddi wrth unrhyw berson arall (gyda'i ganiatâd).

**ATODIAD 2 - RHAGLENNI GWAITH Y PWYLLGORAU SGRIWTINI**

| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Pwnc** | **Canlyniad –Penderfyniad** | **Arbediad** |
| 9 Mai 2011 | Rheoli Perfformiad a Ffynnon | Dim Argymhellion Ffurfiol | £0 |
| | Diweddariad Adnoddau Dynol | Cytunwyd i drafod y protocol ar gyfer cyflwyno dogfennau a baratowyd gan gyrff allanol i Bwyllgorau yn ddwyieithog gyda'r Rheolydd Polisi a Strategaeth | £0 |
| 22 Mehefin 2011 | Datganiad Sefyllfa ar Rheoli Risg | Penderfynwyd:-<br>• cefnogi fersiwn 1 y Strategaeth Ddrafft ar yr amod ei bod yn cael ei diwygio i wahaniaethu'n glir rhwng bygythiadau mewnol a gwendidau allanol a'i chyflwyno wedyn i'r Bwrdd Comisiynwyr;<br>• diwygio paragraff 2, rhan 6.1 yn adroddiad y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini i ddarllen *"Bydd gan sgriwtini rôl"* yn hytrach na *"Bydd raid i sgriwtini fod a rôl....";*<br>• bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn sgriwtineiddio'r Cofrestrau Risg Gwasanaeth bob chwarter; | £0 |
| | Monitro Perfformiad yn Chwarterol | Penderfynwyd:<br>• adolygu ffurf yr Adroddiadau Perfformiad a darparu gwybodaeth fanwl am y data Ystadegol a gyflwynir yn yr adroddiadau;<br>• nodi a yw'r ffigwr yn ymwneud â mater Risg neu a Than-Berfformiad;<br>• bod y Pwyllgor hwn yn cyfeirio'r maes pryder penodol hwn i'r Pwyllgor Sgriwtini priodol am drafodaeth bellach ac i nodi unrhyw gamau cywiro a gymerwyd gan y Swyddogion; | £0 |
| | Adolygu Partneriaeth Gogledd Cymru | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys ynghyd â'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod. | £0 |
| | Cynllun Iaith Gymraeg | Penderfynwyd:-<br>• derbyn adroddiad y Swyddog a'r Adroddiad Monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2010/11;<br>• gofyn i'r Rheolydd Gwasanaeth Cyfieithu gyflwyno adroddiad ysgrifenedig byr i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar sut y gall y Cyngor gynorthwyo'r adain gyfieithu a'r gwasanaeth a bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth o bersbectif ariannol; | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 Gorffennaf 2011 | Cytundebau Canlyniadau | Penderfynwyd cefnogi'r argymhelliad yn adroddiad y Swyddog a gweithredu'r sylwadau a amlinellir uchod fel argymhellion ffurfiol gan y Pwyllgor. | £0 |
| | Strategaeth Ymgysylltiad Cymunedol | Penderfynwyd bod y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini yn casglu sylwadau'r Aelodau (gan gynnwys cysylltu â'r rheini nad oeddynt yn bresennol yn y cyfarfod fel bod modd iddynt gael cyfle i gymryd rhan a gwneud sylwadau ar y Strategaeth) a bod y Swyddog yn paratoi adroddiad, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor hwn , i'w gyflwyno i'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) fel y gellid ei gynnwys fel rhan o ymateb y Cyngor i'r Bwrdd Comisiynwyr. | £0 |
| 29 Medi 2011 | Adrodd ar Berfformiad 2010 / 2011 | Dim Argymhelliad Ffurfiol | £0 |
| | Adrodd ar Berfformiad Chwarter 1 | Penderfynwyd:<br>• cymeradwyo'r chwe argymhelliad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 5 Medi;<br>• y dylid ychwanegu camau ar sut i ddelio gyda diffyg cydymffurfiaeth a pholisïau corfforaethol at yr argymhellion hynny;<br>• mewn perthynas ag Argymhelliad 4, a oedd yn cyfeirio at ddeg blaenoriaeth y Comisiynwyr, byddai'r Cyngor yn dymuno cael rhybudd o'r rhain yn y Pwyllgorau Sgriwtini cyn gynted ag y bo modd;<br>• sylwadau cyffredinol y Pwyllgor Sgriwtini ar yr adroddiad oedd bod fformat yr adroddiad yn dda ond y gallai materion bychan ei wneud yn fwy dealladwy.<br>○ nid yw argraffu lliw yn dangos yn y copïau o'r rhaglenni felly dylai'r prif lythrennau C, A a G gael eu cynnwys yn y blychau gwella er mwyn cynrychioli'r lliw a<br>○ dylid rhifo'r paragraffau a'r tudalennau fel bod modd cyfeirio atynt yn rhwydd yn nhrafodaethau Pwyllgor; | £0 |
| | Absenoldeb Salwch yn yr Awdurdod Ebrill – Gorffennaf 2011 | Penderfynwyd nodi'r cynnydd a wnaed a bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn mewn chwe mis, gan y Rheolydd Gwasanaethau Adnoddau Dynol, i ganiatáu rhywfaint o amser i'r newidiadau gwella wreiddio ar gyfer rheoli absenoldeb. | £0 |
| 20 Hydref 2011 | Ein Cyngor, Eich Cyfraniad – Siapio Blaenoriaethau Corfforaethol 2012 – 2015 | Penderfynwyd anfon y diwygiadau a'r awgrymiadau uchod i'r Uned Bolisi i'w cynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Blaenoriaethau Corfforaethol. | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 10 Tachwedd 2011 | Cyllideb 2012 / 2013 | Diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynwyr am ddod i'r cyfarfod ac am eu sylwadau gwerthfawr a Phenderfynwyd nodi'r adroddiad. | £0 |
| | Fframwaith Rheoli Perfformiad | Penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Fframwaith Cynllunio Corfforaethol a Rheoli Perfformiad gan argymell bod y Bwrdd Comisiynwyr yn ei fabwysiadu ar 14 Tachwedd a bod adnoddau digonol (o bersbectif staffio, TG a chyllid) yn cael eu rhyddhau i yrru'r fframwaith yn ei flaen. | £0 |
| 6 Rhagfyr 2011 | Strategaeth Gyllidebol 2012 / 2013 | Yn dilyn trafodaeth hir, Penderfynwyd :-<br>• nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddogion;<br>• yn dilyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 31 Ionawr 2012, bod y Rheolydd Sgriwtini a'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini yn paratoi adroddiad yn ymgorffori sylwadau'r holl Bwyllgorau Sgriwtini ynghylch y cynigion ar gyfer y gyllideb fel y gellid ei gyflwyno i'r Comisiynwyr;<br>• bod y Prif Weithredwr yn ymateb, gyda hyn, i bryderon yr Aelodau ynghylch nifer yr Ymgynghorwyr/Staff Asiantaeth a gyflogir gan y Cyngor;<br>• bod y Cynghorwyr W.I.Hughes, P.Rogers a H.Thomas yn cyfarfod gyda'r Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini i drafod materion o bryder mewn perthynas â Stad Mân-ddaliadau'r Cyngor; | £0 |
| | Monitro Perfformiad ar sail Chwarterol | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad, nodi'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau a sicrhau y cymerir camau priodol pryd bynnag y bydd angen gwneud hynny. | £0 |
| | Prosiect Cydweithio ar gyfer y Gwasanaethau Cyfreithiol | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chael adroddiad gwaith ar y prosiect mewn tri mis. | £0 |
| 12 Ionawr 2012 | Rheoli Risg Strategol | Penderfynwyd:-<br>• nodi'r adroddiad a sylwadau'r Swyddog;<br>• croesawu'r cyfle i Aelodau'r Pwyllgor fynychu gweithdy ynghyd ag Aelodau'r Pwyllgor Archwilio i gael gwell dealltwriaeth o'r Gofrestr Risg; | £0 |
| 31 Ionawr 2012 | Cyllideb 2012 / 2013 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chaniatáu i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd adolygu'r wybodaeth a gafwyd gan y Pwyllgorau Sgriwtini eraill a pharatoi adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr, a fydd yn cynnwys argymhellion Sgriwtini mewn perthynas â Chynigion ar gyfer Cyllideb 2012-2013.<br>Penderfynwyd ymhellach y dylid gofyn am Adolygiad Cyllideb Sail, a bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn chwarae rôl allweddol mewn ymarfer o'r fath. | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynllun Busnes Corfforaethol Drafft | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad. | £0 |
| | Diwygio'r Cynllun Iaith Gymraeg | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi y bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei drafod gan y Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Chwefror a'i gyflwyno wedyn i'w fabwysiadu gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2012. | £0 |
| | Fersiwn Drafft o Gynllun Cydraddoldebau Strategol y Cyngor am y cyfnod 2012 – 2016 | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi y bydd y Cynllun Drafft yn cael ei drafod gan y Bwrdd Comisiynwyr ar 20 Chwefror a'i gyflwyno wedyn i'w fabwysiadu gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2012. | £0 |
| 16 Chwefror 2012 | Adolygu Rhesymoli Partneriaethau | Penderfynodd yr Aelodau:-<br>• cymeradwyo'r model arfaethedig mewn egwyddor;<br>• penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel cynrychiolwyr y Cyngor hwn ar y Grŵp Tasg neu'r Grŵp Prosiect;<br>• ethol y Cynghorydd R. Dylan Jones fel yr Aelod wrth gefn oni fydd y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd yn gallu mynychu cyfarfod o'r Grŵp; | £0 |

| Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Eitem** | **Canlyniad –Penderfyniad** | **Arbedion** |
| 6 Mehefin 2011 | Blaenraglen Waith | Yn dilyn trafodaethau, penderfynwyd bod angen cael adroddiadau dilyn-i-fyny a chymryd camau ar bynciau a godwyd gan y Pwyllgor ar sail reolaidd. | £0 |
| 19 Gorffennaf 2011 | GeoMôn | Penderfynwyd :-<br>• Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn yn amlinellu sut y gellid cefnogi GeoMôn yn y dyfodol.<br>• Bod y Pennaeth Datblygu Economaidd Dros Dro yn cymryd cyfrifoldeb fel y Swyddog sy'n Arwain ar gyfer ceisio cynorthwyo'r sefydliad ymhellach. | £0 |
| | Cynllun Datblygu Gwledig | Penderfynwyd :-<br>• Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn mewn 12 mis yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â chynnydd gyda'r CDG a bob chwe mis ar ôl hynny.<br>• Bod adroddiad ynghylch trosglwyddo cyllid mewn perthynas â Chlwb Codi Pwysau Caergybi yn cael ei gyfuno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn. | £0 |
| | Cynllun Peilot ar gyfer Ynni Mân-ddaliadau | Penderfynwyd sefydlu Panel Tasg a Gorffen i drafod y Cynllun Peilot Ynni Mân-ddaliadau i hwyluso materion; enwebiadau i'w cyflwyno i'r Swyddog Sgriwtini cyn gynted ag y bo modd a bod y Cadeirydd yn cynnig cylch gorchwyl a threfnu cyfarfod ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Sgriwtini gyda hyn. | £0 |
| | Cynnig ar gyfer Ailstrwythuro Sgriwtini | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad i arbrofi ar unwaith gyda chynnal y Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo bob chwarter gyda 2 Banel Sgriwtini yn rhedeg un ar ôl y llall ac yn adrodd yn ôl ar y canlyniadau i'r rhiant Bwyllgor. Awgrymwyd un pwnc eisoes ar gyfer y Panel o Eitem 6 - Cynllun Peilot Ynni Mân-ddaliadau; gofynnir am bynciau eraill ar gyfer Panelau a chytunir arnynt cyn gynted ag y bo modd gyda'r Aelodau Pwyllgor. | £0 |
| 22 Medi 2011 | Canlyniadau Posib a Mesurau Perfformiad (ESYS) | Penderfynwyd<br>• Gwneud trefniadau i'r Pwyllgor hwn ymweld â chynlluniau datblygu economaidd yng Nghaergybi.<br>• Bod y risgiau a'r peryglon a amlygir yn yr adroddiad yn cael eu hadeiladu i mewn i'r Cynllun Corfforaethol.<br>• Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r Adran Datblygu Economaidd yn benodol ar | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gyfer y Prosiect Ynys Ynni. | |
| | Datganiad ar Ymgynghori gyda'r Gymuned | Adroddwyd y bydd yr eitem hon yn cael sylw yn y Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Sir ar 26 Medi 2011 a phenderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-<br>• Fod Horizon Nuclear Power yn ymgynghori'n benodol gyda'r holl weithwyr, yn Ynys Môn ac yn rhanbarth Arfon yng Ngwynedd, i bwyso a mesur effeithiau posib a chyfleon posib a allai godi o ganlyniad i ddatblygiad niwclear newydd yn Wylfa;<br>• Bod y Parthau Ymgynghori yn cael eu diwygio fel bod y cyfan o ynys Môn wedi ei chynnwys ym Mharth A, gan adlewyrchu'n well effaith bosib y datblygiad niwclear newydd ledled yr Ynys.<br>Gellir crynhoi argymhellion ychwanegol, sydd ddim yn gysylltiedig â'r datganiad fel a ganlyn :-<br>• Bod asesiad annibynnol o'r effaith ar yr iaith Gymraeg yn cael ei gynnal/ei gomisiynu gan y Cyngor Sir (a chysylltu gyda Chomisiynydd Iaith Llywodraeth Cymru am gyngor, mewnbwn a chyfranogiad).<br>• Comisiynu asesiad annibynnol o'r effaith ar y stoc dai.<br>• Bod rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyfforddi a rhoi sgiliau ychwanegol i bobl ifanc fel eu bod mewn gwell sefyllfa i gymryd mantais o'r cyfleon posib sy'n codi o ganlyniad i ddatblygiad niwclear newydd.<br>• Annog y cwricwla addysgiadol lleol i ganolbwyntio ar Wyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Maths, a bod dull dau lwybr yn cael ei fabwysiadu gyda'r Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear i sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan yn yr agenda sgiliau. | £0 |

| Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Eitem** | **Canlyniad –Penderfyniad** | **Arbedion** |
| 7 Mehefin 2011 | Enwebu Aelod | Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd R.Dylan Jones i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol. | £0 |
| | Moderneiddio a Rhesymoli Ysgolion yn Ynys Môn | Penderfynwyd:<br>Derbyn y Datganiad Sefyllfa yn ffurfiol fel y cafodd ei gyflwyno, a gofyn i'r Bwrdd Comisiynwyr, yn ei gyfarfod a gynhelir ar 11 Gorffennaf 2011, i fabwysiadu'r Datganiad Sefyllfa'n ffurfiol ynghyd â Fframwaith Polisi cysylltiedig.<br><br>Gofyn i'r Adran Addysg –<br>• Datblygu fframwaith polisi newydd ar gyfer moderneiddio a rhesymoli sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol.<br>• Darparu dadansoddiad o'r stoc ysgol gyfredol ac adrodd yn ôl ar flaenoriaethau a goblygiadau cost gwaith gwella.<br>• Ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud gwell defnydd cymunedol o'r adnoddau cyfredol gan gynnwys darparu cyfleon ar gyfer defnyddio ysgolion ar gyfer dysgu gydol oes. | £0 |
| | Diweddariad ynghylch y Ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys. | £0 |
| | Hunanwerthuso'r Gwasanaeth Ieuenctid | Penderfynwyd:<br>• Derbyn yr adroddiad hunanwerthuso gan y Gwasanaeth Ieuenctid a nodi ei gynnwys.<br>• Bod adroddiad hunanwerthuso ar y Gwasanaeth Ieuenctid yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini hwn bob blwyddyn i bwrpas monitro. | £0 |
| | Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth am y cyfnod 2010-11 a Materion i'r | Penderfynwyd:<br>• Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.<br>• Sefydlu Panel Tasg a Gorffen o'r Pwyllgor hwn i gefnogi a hwyluso ymarfer | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Dyfodol | ymgynghori cynhwysfawr ar gyfeiriad a chyfluniad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth i'r dyfodol. Bod y Swyddog Cymorth a Chyswllt Sgriwtini yn ysgrifennu at aelodau'r Pwyllgor i ofyn am enwebiadau ar gyfer aelodaeth o'r Panel a'i fod yn cwrdd gyda'r Cadeirydd a Swyddog i drafod y cylch gorchwyl. | |
| **19 Gorffennaf 2011** | Grant Teuluoedd yn Gyntaf (Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc) | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a gofyn am wybodaeth yn dangos sut y mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn rhagori ar ei rhagflaenydd, a pha werth ychwanegol a geir yn sgil prosiectau a gyllidir dan y rhaglen. | £0 |
| | Blaenraglen Waith y Pwyllgor | Penderfynwyd nodi'r Blaenraglen Waith a bod y Swyddog Cyswllt a Chymorth Sgriwtini yn codi'r posibilrwydd o ddarparu adroddiadau diweddaru rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch y Rhaglen Foderneiddio a Rhesymoli Ysgolion gyda'r Pennaeth Gwasanaeth (Addysg). | £0 |
| | Cwrs Golff Cyhoeddus Llangefni | • Penderfynwyd derbyn argymhellion yr adroddiad y dylid ailystyried allanoli yn dilyn adolygiad o berfformiad y Cwrs Golff ar ddiwedd blwyddyn 2011/12.<br>• Penderfynwyd derbyn argymhelliad yr adroddiad, yn wyneb y cynnydd diweddar o ran yr incwm a gynhyrchir, bod y trefniadau cyfredol yn parhau ac y dylid cynnal adolygiad pellach yn gynnar yn 2011/12.<br>• Penderfynwyd derbyn argymhelliad yr adroddiad fel y cafodd ei amlinellu dan Opsiwn 1 yn rhan 3.2 yr adroddiad.<br>• Roedd y Pwyllgor hefyd yn cytuno y dylid awgrymu bod y Gwasanaeth Hamdden yn ystyried cryfhau ei strategaeth farchnata ymhellach ar gyfer y Cwrs Golff Cyhoeddus i gynnwys hyrwyddiadau a chystadlaethau arbennig. | £0 |
| 16 Medi 2011 | Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg | Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg a'r argymhellion ynddo a nodi'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth arno. | £0 |
| | Cyflwr y Stoc Ysgolion yn Ynys Môn | Penderfynwyd nodi'r adroddiad gyda'r amod bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â materion y mae'r adroddiad yn rhoi sylw iddynt. | |
| 15 Tachwedd 2011 | Adroddiad Llais Ni | Penderfynwyd:<br>• Nodi'r adroddiad a chofnodi cefnogaeth y Pwyllgor i barhad y Prosiect Llais Ni.<br>• Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Addysg) a'r Prif Swyddog Ieuenctid edrych ar ffynonellau cyllido posib ar gyfer y Prosiect Llais Ni o blith y ffrydiau grant cyfredol yn yr Adran Addysg ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn. | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Panel Adolygiad Sgriwtini - Dyraniad Cyllidebol ar gyfer Ysgol y Bont | Derbyn adroddiad y Panel Adolygiad Sgriwtini a'i argymhellion, yn amodol ar wneud mân newid i eiriad Cymal 6.1, a'i anfon ymlaen at y Bwrdd Comisiynwyr.<br><br>Bod y Pwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden yn cael diweddariadau rheolaidd ar ganlyniadau cyfarfodydd rheoli cyllideb rhwng y Cyfrifydd Addysg a Phennaeth Ysgol y Bont. | £0 |
| 11 Ionawr 2012 | Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg am y Cyfnod 2010-2011 – Diweddariad | Penderfynwyd:<br>• Derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth ynddo.<br>• Bod adroddiad mewn perthynas â System newydd Llywodraeth Cymru i Fandio Ysgolion yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol.<br>• Bod y Pwyllgor, fel rhan o'i Raglen Waith, yn rhoi sylw i ffyrdd o wella a hwyluso'r broses ar gyfer ymgeisio am Brydau Ysgol am Ddim yng nghyd-destun sefydlu siop un stop ar gyfer Budd-daliadau. | £0 |
| | Cyflwr y Stoc Ysgolion yn Ynys Môn | Penderfynwyd:<br>• Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.<br>• Cefnogi'r dull a amlinellir yn yr adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr ar 9 Ionawr fel man cychwyn ar gyfer Moderneiddio'r Ddarpariaeth o Ysgolion. | £0 |
| | Defnydd Ehangach o Ysgolion Môn | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. | £0 |
| 27 Ionawr 2012 | Ymgynghori ar Gyllideb y Cyngor ar gyfer 2012-2013: Datganiad a Strategaeth y Comisiynwyr mewn perthynas â'r Gyllideb | Penderfynwyd:<br>• Nodi'r cynigion ar gyfer Cyllideb 2012-13.<br>• Cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i ddiogelu ysgolion a chyllidebau ysgol.<br>• Derbyn y cynigion ar gyfer cyflawni arbedion o 5% o fewn Cyllidebau'r Gwasanaethau Llyfrgelloedd a Gwybodaeth, y Gwasanaethau Amgueddfeydd a Diwylliant ac Addysg Ganolog fel yr amlinellir yn Atodiad D i'r adroddiad ar y Gyllideb Refeniw Ddrafft ar gyfer 2012-13. | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mewn perthynas â Gwasanaethau Hamdden:<br>• Cofnodi gwrthwynebiad y Pwyllgor i gau unrhyw adnodd Hamdden neu gyfleuster Hamdden, a<br>• Argymell i'r Bwrdd Comisiynwyr y dylid chwilio i'r posibilrwydd o wneud arbedion yn y gwasanaeth hwn trwy edrych ar ddulliau eraill o ddarparu a chyflenwi'r gwasanaeth, megis ei allanoli neu weithio mewn partneriaeth ac/neu adolygu oriau gweithredol. | |
| | Cynllun Busnes Corfforaethol Drafft ar gyfer 2012-2013 | Penderfynwyd derbyn y fersiwn ddrafft o'r Cynllun Busnes Corfforaethol ar gyfer 20121-15 a nodi'r cynnwys a'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth arno. | £0 |
| 13 Chwefror 2012 | Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru - Achos Busnes Llawn | Penderfynwyd cefnogi'r Achos Busnes ar gyfer Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru. | £800,00 ar draws Gogledd Cymru |
| 3 Ebrill 2012 | Y System Bandio Genedlaethol ar gyfer Ysgolion | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. | £0 |
| | *Adolygiad Estyn 21-25 Mai 2012* | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys. | £0 |
| | *Panel Adolygiad Sgriwtini: Adroddiad Drafft – Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd* | Penderfynwyd gofyn i'r Panel Adolygu gyfarfod i drafod gwybodaeth sydd wedi dod i'r wyneb yn ystod y dyddiau cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor. | £0 |

| Pwyllgor Sgriwtini yr Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Eitem** | **Canlyniad –Penderfyniad** | **Arbedion** |
| 10 Mai 2011 | Y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Ynys Môn a Gwynedd: Adroddiad Gwaith | • Nodi'r adroddiad a bod manylion am y goblygiadau ariannol yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor gyda hyn.<br>• Bod adroddiadau rheoliad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd fel bod modd sgriwtineiddio cynnydd. | £0 |
| | Polisi Cynllunio Dros Dro (Tai Mewn Clystyrau Gwledig) | PENDERFYNWYD argymell i'r Bwrdd Comisiynwyr fel a ganlyn:-<br>• Derbyn yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed o ran llunio Polisi Cynllunio Dros Dro (Drafft i bwrpas Ymgynghori).<br>• Argymell y dylid rhyddhau'r Polisi Cynllunio Dros Dro i bwrpas ymgynghori gyda'r cyhoedd fel bod modd cael eu sylwadau a sylwadau cydranddeiliaid allweddol eraill.<br>• Bod adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn y cyfnod ymgynghori. | £0 |
| 14 Mehefin 2011 | Y Ddarpariaeth o Doiledau Cyhoeddus yn Ynys Môn i'r Dyfodol | PENDERFYNWYD :-<br>• Sefydlu Panel Adolygiad Sgriwtini i drafod toiledau cyhoeddus ar yr Ynys mewn manylder. | £0 |
| | Cyfraddau Ailgylchu a Rheoli Gwastraff | PENDERFYNWYD:<br>• Derbyn yr adroddiad a llongyfarch yr Adain Rheoli Gwastraff am ei gwaith.<br>• Gofyn i Swyddfa'r Wasg ryddhau datganiad ar ran y Pwyllgor hwn, yn canolbwyntio ar lwyddiant y Cyngor Sir yn mynd y tu hwnt i'r targedau ailgylchu a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. | £0 |
| | Cofnodion Grŵp Gweithredol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol | Er gwybodaeth yn unig. | £0 |
| 26 July 2011 | Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd | PENDERFYNWYD:<br>• Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd ac yn diolch i'r Swyddogion perthnasol am eu gwaith.<br>• Gofyn i'r Swyddog Cyfathrebu, mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Priffyrdd, | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | baratoi Datganiad i'r Wasg i roi gwybod i'r cyhoedd am yr ased sylweddol y mae'r awdurdod yn berchen arno yn y rhwydwaith priffyrdd. | |
| | Cytundeb Darparu – Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd rhwng Ynys Môn a Gwynedd | PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cefnogi'r Cynllun Darparu fel bod modd ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am faterion cynllunio ac wedyn i'r Cyngor llawn i'w fabwysiadu. | £0 |
| | Canlyniad y Panel Sgriwtini a sefydlwyd i Adolygu Mesurau a gymerir i fyd i'r afael ag Yfed Dan Oed | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'i anfon ymlaen i'r Bwrdd Comisiynwyr i'w gadarnhau. | £0 |
| 27 Medi 2011 | Adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa a Datblygiadau Mawr: Datganiadau ar y Sefyllfa Drafnidiaeth | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad. | £0 |
| | Baw Cŵn | PENDERFYNWYD :-<br>• Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Swyddogion am eu gwaith.<br>• Ysgrifennu at bob Cyngor Tref/Cymuned a threfnu datganiad i'r wasg ar wefan y Cyngor ac yn y papurau newydd lleol i roi gwybod i'r cyhoedd y gellir rhoi baw cŵn mewn biniau gwastraff cyffredinol bellach.<br>• Bod Swyddogion yn trafod ymhellach y posibilrwydd bod gwasanaethau eraill yn cymryd rhan mewn camau gorfodaeth mewn perthynas â materion baw cŵn. | £0 |
| | Adroddiad Gwaith gan y Panel Adolygiad Sgriwtini - Y Ddarpariaeth o Doiledau Cyhoeddus yn Ynys Môn i'r Dyfodol | PENDERFYNWYD cytuno bod yr Adain Rheoli Gwastraff yn trefnu hysbyseb yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb gan ddatblygwyr preifat/cyhoeddus mewn perthynas ag unrhyw un o'r lleoliadau sydd ar y rhestr fer o safleoedd a fydd, o bosib, yn cau. | £0 |
| 24 Hydref 2011 | Polisi Cynllunio Dros Dro – Tai Mewn Clystyrau Gwledig | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chyflwyno'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor i'r Bwrdd Comisiynwyr cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn. | £0 |
| | Canllawiau Cynllunio Atodol – Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi y caiff ei gyflwyno i'r Cyngor llawn gyda hyn. | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft – Ynni Gwynt ar y Tir | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am faterion Cynllunio am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor hwn a gofyn am ei ganiatâd i ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y canllawiau atodol drafft. | £0 |
| | Adroddiad Gwaith – Darpariaeth o Doiledau Cyhoeddus yn Ynys Môn i'r Dyfodol | PENDERFYNWYD :<br>• Nodi'r adroddiad a disgwyl am gasgliadau'r Panel Adolygiad Sgriwtini gyda hyn.<br>• Bod y Panel Adolygiad Sgriwtini yn ymgynghori gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd, Twristiaeth ac Eiddo pan fydd yn cwblhau ei adroddiad.<br>• Bod yr Adain Rheoli Gwastraff yn adolygu'r arwyddion cyfredol, gan ddwyn sylw at fusnesau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Toiledau Cymunedol. | £0 |
| 5 Dec 2011 | Canlyniad Panel Sgriwtini a Sefydlwyd i Adolygu'r Ddarpariaeth o Doiledau Cyhoeddus yn Ynys Môn i'r Dyfodol | PENDERFYNWYD bod adroddiad y Panel Adolygiad Sgriwtini yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr am sylw, gan ymgorffori'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor hwn fel y maent wedi eu nodi uchod, a bod unrhyw wrthwynebiadau neu wybodaeth sy'n tynnu'n groes i argymhellion y Panel yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Bwrdd Comisiynwyr.<br><br>[Arbedion refeniw o £30,000 y flwyddyn.Mae'r arbedion blynyddol gan gynnwys costau ychwanegol h.y. Trethi Cenedlaethol Annomestig ac ati yn gwneud cyfanswm arbedion blynyddol o gwmpas £60,000] | £60,000 |
| | Sgriwtineiddio'r Protocol Trosedd ac Anrhefn | PENDERFYNWYD mabwysiadu'r protocol ar gyfer y flwyddyn i ddod. | £0 |
| | Diogelwch Cymunedol Ynys Môn – Cynllun Partneriaeth Blynyddol | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a gofyn am i lythyr gael ei anfon gan y Bwrdd Comisiynwyr yn datgan eu siomiant ynghylch y ffaith bod cyllid grant wedi ei gymeradwyo'n hwyr sydd, yn ei dro, yn cael effaith andwyol ar allu asiantaethau yn Ynys Môn i weithredu eu cynlluniau. | £0 |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gamddefnyddio Sylweddau | PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Blynyddol a bod y Cydgysylltydd Diogelwch Cymunedol yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf (er gwybodaeth yn unig) mewn perthynas â chanlyniadau unrhyw ddata camddefnyddio sylweddau ar gyfer Môn. | £0 |
| | Grant Diogelwch Cymunedol 2011-2012 | PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a chysylltu gyda'r Aelod Seneddol, Mr. Albert Owen i ymchwilio i'r diffyg cyllid ar gyfer y Grant IDVA. | £0 |
| 24 Ionawr 2012 | Ymgynghori ar Gyllideb y Cyngor am y flwyddyn 2012 - 2013 – Datganiad ar | PENDERFYNWYD :-<br>• Derbyn y cynigion drafft mewn perthynas â chyllideb 2012/13 ond gan nodi'r pryderon a fynegwyd y bydd y gyllideb cynnal a chadw'n cael ei thorri. | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Strategaeth y Comisiynwyr ar gyfer y Gyllideb | • Y dylai'r awdurdod fod yn rhagweithiol o ran cyflwyno datganiadau i'r wasg, i roi gwybod i'r cyhoedd lle cafwyd cymorth grant am gynlluniau newydd. | |
| | Cynllun Busnes Corfforaethol – Drafft | PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad. | £0 |
| 5 Mawrth 2012 | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd | PENDERFYNWYD:-<br>• Cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a gynhaliwyd ar 17 Chwefror, 2012 fel a nodir yn yr adroddiad.<br>• Bod y mapiau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar gael i'r Pwyllgoryn y man. | £0 |
| 26 Ebrill 2012 | Atborth ar yr ymgynghori cyhoeddus ar y CCA Drafft Ynni Gwynt ar y Glannau | | £0 |

| Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad** | **Eitem** | **Canlyniad –Penderfyniad** | **Arbedion** |
| **3 Mehefin 2011** | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2010-2011 | Derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol am 2010/11 a nodi ei gynnwys.<br>Bod llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei anfon i'r Panel Tâl a Graddfeydd i gyfleu i'r Panel bryderon parhaol aelodau'r Pwyllgor bod yr oedi gyda chwblhau'r proses Arfarnu Swyddi yn cael effaith negyddol ar recriwtio i swyddi yn y Gwasanaethau Plant. | £0 |
| | Lles a Budd-dâl – Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU | Penderfynwyd nodi'r adroddiad ar adolygu Budd-daliadau Lles a'r pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad. | £0 |
| | Enwebu i Bwyllgor | Penodi'r Cynghorydd J. V. Owen i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol.<br>Penodi'r Cynghorydd J. P. Williams i wasanaethu ar y Panel Gofal Cwsmer a Chwynion, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>Penodi'r Cynghorwyr Robert Lloyd Hughes ac R. L. Owen i wasanaethu ar Grŵp Mentora y Gwasanaethau Oedolion. | £0 |
| **13 Gorffennaf 2011** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) – y cyntaf o ddau Adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yn flynyddol. | Penderfynwyd gofyn i'r BIPBC –<br>• Cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr agwedd o ofal y tu allan i'r ysbytai i gynnwys gwybodaeth ar arbedion a wnaed.<br>• I ailystyried y penderfyniad i wrthod cais am ail fferyllfa yn Amlwch ac i gymryd camau i sicrhau bod gwasanaeth fferyllfa ar gael saith niwrnod yr wythnos i bobl sy'n byw yn Amlwch a'r ardal oddi amgylch.<br>• Cymryd camau i gynyddu'r nifer o arwyddion gwybodaeth i'r cyhoedd am wasanaeth allan o oriau yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi.<br>• Ymchwilio a yw'r Bwrdd yn gweithio yn unol â chyfarwyddyd y Coleg Nyrsio Brenhinol o ran safonau niferoedd nyrsio diogel ac i ddarparu ymateb ar hynny.<br>• | £0 |
| | Gwasanaeth Ambiwlans Cymru Ymddiriedolaeth GIG (Perfformiad) | D/B | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Protocol Sipsiwn a Theithwyr Drafft | Penderfynwyd derbyn Protocol Drafft ar y Cyd Gogledd Cymru ar gyfer Rheoli Gwersyllfeydd Anawdurdodedig fel yr oedd wedi'i gyflwyno ac i gyfeirio'r protocol i'r Bwrdd Comisiynwyr am ei gymeradwyaeth ac i'w fabwysiadu. | £0 |
| | Polisi Eiddo Anodd eu gosod Drafft | Penderfynwyd derbyn y Polisi Gosod Tai drafft ar gyfer ymgynghori gyda thenantiaid a chydranddeiliaid perthnasol cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Comisiynwyr am ei gymeradwyaeth. | £0 |
| **20 Medi 2011** | Strategaeth Pobl Hŷn | Penderfynwyd nodi –<br>• Y cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â gwireddu bwriadau comisiynu Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Pobl Hŷn y Gwasanaethau Cymdeithasol a gofyn i'r Adran fel rhan o'i phroses gynllunio roi sylw i'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau yn ystod y drafodaeth hon.<br>• Ymdrechion yr Adran i sicrhau capasiti tymor sefydlog ac ychwanegol i reoli prosiect y rhaglen newid a hefyd i sicrhau bod gwasanaeth eiriolaeth a chefnogaeth briodol ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnod trosiannol. | £0 |
| | Strategaeth Cyfranogiad Tenant Drafft | Penderfynwyd derbyn y Strategaeth Cyfranogiad Tenant Lleol 2011-14, y Cynllun Gweithredu a'r Siarter Gofal Cwsmer ac i gyfeirio'r dogfennau at y Bwrdd Comisiynwyr i'w cymeradwyo a'u mabwysiadu. | £0 |
| | AGGCC – Archwilio'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal plant mewn angen ar Ynys Môn | Penderfynwyd<br>• Nodi cynnwys yr adroddiad.<br>• Cefnogi aelodau'r Bwrdd Gwella mewn perthynas ag ymgysylltiad aelodau.<br>• Bod y Pwyllgor hwn yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd gan y Bwrdd Gwella.<br>• Gofyn i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor hwn ynglŷn ag asesiad y tri ymgynghorydd allanol o gynnydd gyda gweithredu'r Cynllun Gwella. | £0 |
| **7 Tachwedd 2011** | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Lleol Gwynedd a Môn | Penderfynwyd<br>• Nodi cynnwys yr adroddiad fel yr oedd wedi'i gyflwyno.<br>• Cofnodi boddhad y Pwyllgor gyda'r trefniadau presennol a'r cynnydd hyd yn hyn fel oedd i'w weld yn adroddiad blynyddol 2010/11 a Chynllun Busnes 2010/13. | £0 |
| | Cynllun Gweithredu | Penderfynwyd | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Plant | • Nodi cynnwys yr adroddiad a chydnabod y cynnydd a wnaed mewn cyfnod anodd.<br>• Gofyn i'r Cadeirydd gyfleu i'r Prif Weithredwr Dros Dro bryderon parhaol y Pwyllgor hwn ynglŷn â'r effeithiau y mae'r graddfeydd cyflog nad ydynt yn gystadleuol a hefyd yr ansicrwydd parhaol parthed y broses Arfarnu Swyddi, yn ei gael ar recriwtio.<br>• Bod adroddiad gwaith arall ynglŷn â'r cynnydd gyda gweithredu'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant yn cael ei gynnwys ar raglen waith y Pwyllgor ar gyfer Ionawr 2012. | |
| | Strategaeth Pobl Hŷn | Penderfynwyd nodi:<br>• Y cynnydd hyd yma gyda chyflawni bwriadau comisiynu Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Pobl Hŷn y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Ymdrechion yr Adran i sicrhau capasiti tymor penodol ychwanegol i reoli prosiect y rhaglen newid a hefyd i sicrhau eiriolaeth briodol a chefnogaeth i'w wasanaethau yn ystod y cyfnod trosiannol. | £0 |
| | Adroddiad Blynyddol y ar y Weithdrefn Gwynion a Sylwadau, Gwasanaethau Cymdeithasol | Penderfynwyd derbyn yr Adroddiad Blynyddol am 2010/11 mewn perthynas â pherfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion yn ystod y flwyddyn dan sylw. | £0 |
| | Diweddariad – Prosiect Cydweithredu Hwb Comisiynu, Pwrcasu a Monitro Rhanbarthol | Penderfynwyd<br>• Nodi'r wybodaeth ynglŷn â statws y Prosiect Cydweithio Rhanbarthol ar gyfer Comisiynu, Pwrcasu a Monitro fel yr oedd wedi'i gyflwyno.<br>• Nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar ôl y Nadolig pan fydd yr achos Busnes Llawn wedi cael ei gwblhau. | £0 |
| **19 Rhagfyr 2011** | Adroddiad Cylch Arolygu'r Uned Ddarparu | Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth arno. | £0 |
| | Strategaeth Pobl Hŷn Ynys Môn | Penderfynwyd:<br>• Nodi'r cynnydd hyd yn hyn gyda gwireddu bwriadau comisiynu Strategaeth Gomisiynu Gwasanaethau Pobl Hŷn y Gwasanaethau Cymdeithasol o safbwynt y Gwasanaethau Teleofal ac Ailfodelu Gwasanaethau Dydd.<br>• Nodi bod gwireddu'r ail her gomisiynu yn llawn yng nghyswllt gofal canolraddol | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn dibynnu ar waith negodi / cytundeb ar y cyd gydag Iechyd parthed gweledigaeth / nod, manylion a ffrâm amser cyffredinol.<br>• Nodi ymdrechion parhaol yr Adran i sicrhau capasiti tymor penodol ychwanegol i reoli prosiect y rhaglen newid a hefyd i sicrhau eiriolaeth briodol a chefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnod trosiannol.<br>• Derbyn mewn egwyddor yr angen i fynd i'r afael ac ailystyried y ddarpariaeth o ofal preswyl mewnol fel rhan o'r gweithgareddau ailfodelu cyfredol, a gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn, raglen ac achos busnes manwl mewn perthynas â'r agwedd hon o'r ddarpariaeth o ofal.<br>• I nodi'r Cynllun Gweithredu a'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth arno. | |
| | Cynllun Morgais Awdurdod Lleol | Penderfynwyd cefnogi'r cynnig mewn perthynas â LAMS mewn egwyddor a chytuno i'r swyddogion drafod ymhellach y risgiau a hefyd y papurau cyfreithiol cyn cyflwyno adroddiad pellach yn dilyn derbyn papurau ychwanegol gan Sector Treasury Services. | £0 |
| | Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Penderfynwyd –<br>• Nodi'r adroddiad mewn perthynas â gweithrediad y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ym Môn yn ystod 2010/11.<br>• Gofyn i Swyddogion Tai gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol, adroddiad yn ymgorffori awgrymiadau ynglŷn â sut y gall y prosesau grantiau cyfleusterau i'r anabl a hefyd y gweithdrefnau gael eu gwella ymhellach. | £0 |
| **30 Ionawr 2012** | Ymgynghori ar y Gyllideb Ddrafft 2012-2013 | Penderfynwyd –<br>• Nodi'r cynigion cychwynnol ar gyfer cyllideb y Cyngor 2012/13.<br>• Cyfleu i'r Bwrdd Comisiynwyr bryderon dwys y Pwyllgor Sgriwtini Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r effaith ar oedolion a phobl hŷn sy'n dibynnu ar wasanaethau gofal yr Adran o ganlyniad i'r bwriad i resymoli'r gwasanaethau hynny ar y raddfa a gyflwynwyd a'r risg wedi hynny i'r Cyngor Sir o beidio cyflawni ei ddyletswyddau statudol, a gofyn i'r Comisiynwyr roi sylw difrifol i'r pryderon hynny wrth ffurfio ei gynigion cyllidebol terfynol. | £0 |
| | Ymgynghori ar y Cynllun Busnes Corfforaethol Drafft | Penderfynwyd derbyn y Cynllun Busnes Corfforaethol Drafft am 2012-15 ac i nodi ei gynnwys a'r sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth arno. | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cyfrif Rhent Tai 2012-2013 | Penderfynwyd argymell i'r Bwrdd Comisiynwyr:<br><br>• Bod rhenti tai'n cael eu cynyddu 4.91% sy'n cyfateb i £3.03 yr annedd yr wythnos.<br>• Bod rhenti garejys yn codi 30 ceiniog yr wythnos i £6.37 yr wythnos.<br><br>[Bydd y cynnydd yn y rhent yn cynhyrchu cyfanswm a amcangyfrifwyd o incwm rhent i'r CRT yn 2012-13 o £12,576,204.24] | £12,576,204.24 |
| | Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Plant | Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed hyd yma. | £0 |
| **12 Mawrth 2012** | Hwb Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer Comisiynu, Pwrcasu a Monitro | Penderfynwyd cefnogi sefydlu Hwb Comisiynu, Pwrcasu a Monitro Cydweithredol Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru i wasanaethu'r chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dilyn cwblhau'r Achos Busnes fel oedd wedi'i gyflwyno ar y sail y bydd Ynys Môn, ar y cychwyn yn ymrwymo i'r trefniadau am gyfnod o ddwy flynedd ac y bydd yr awdurdod, yn dilyn adolygiad a drefnir yn ganolog, yn cyflwyno argymhellion pellach bryd hynny.<br><br>[Disgwylir y bydd yr arbedion i Fôn rhwng 2.5% a 4% o'r gwariant presennol unwaith y bydd y trefniadau newydd yn eu lle]. | 2.5% - 4% o'r gwariant presennol |
| | Rhaglen Cefnogi Pobl – Sefydlu Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru | Penderfynwyd:<br>• Cefnogi cyfranogiad Cyngor Sir Ynys Môn mewn Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol cysgodol ar gyfer y Gwasanaethau Cefnogi Pobl i ymgymryd â'r swyddogaethau oedd ym mharagraff 3.01 yr adroddiad a'r Cylch Gorchwyl fel y'i cyflwynwyd.<br>• I dderbyn aelodaeth arfaethedig y Pwyllgor Cydweithredol Cysgodol fel oedd i'w weld ym mharagraff 3.02 y Cylch Gorchwyl.<br>• I gofnodi barn y Pwyllgor y dylai'r trefniadau sgriwtini, yn unol â pharagraff 5.02 y Cylch Gorchwyl, ganiatáu ar gyfer sgriwtini cyn gwneud penderfyniad fel y gallai Aelodau Etholedig gyflwyno eu safbwyntiau cyn i benderfyniadau gael eu gwneud.<br>• I nodi y bydd y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gan Mr. Gareth Llwyd, Rheolwr Comisiynu a Chefnogi Busnes, | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Adran Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Comisiynydd Mrs Margaret Foster OBE neu'r Cynghorydd O. G. Jones, Deilydd Portffolio Cysgodol, Gwasanaethau Tai. | |
| | Ffioedd a Chodi Tâl 2012-2013 – Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | Yn dilyn trafodaeth, fe benderfynwyd cefnogi'r argymhelliad bod y tâl safonol am 2012/13 yn cael ei osod ar £474.02 yr wythnos (yn cyfateb i gynnydd 3.34%).<br><br>Penderfynwyd argymell i'r Bwrdd Comisiynwyr:<br>• Ei fod yn cymeradwyo'r cynigion i sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion y Mesur Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 a Rheoliadau a Chyfarwyddyd perthnasol a'r bwriadau i gyflwyno ffioedd newydd ar 9 Ebrill 2012.<br>• Ei fod yn nodi'r angen i'r Awdurdod Lleol amcangyfrif yn llawn beth fyddai'r golled wirioneddol o ran refeniw i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol o ganlyniad i weithredu'r Mesur uchod a'r Rheoliadau a Chyfarwyddyd cysylltiedig (fel sail dros hawlio incwm a gollwyd gan Lywodraeth Cymru).<br>• Ei fod yn mabwysiadu'r canlynol ynglŷn â'r ffioedd a'r taliadau i'w pennu am wasanaethau gofal cartref yn 2012/13.<br>• Y taliadau a nodwyd ym mharagraff 4.5 yr adroddiad ar gyfer darparu prydau bwyd.<br>• I rewi taliadau ar lefelau 2011/12 ar gyfer y Gwasanaethau Teleofal fel oedd i'w weld ym mharagraff 4.7 yr adroddiad.<br>• I rewi'r ffi am wasanaethau cefnogol yn y gymuned yn ôl £7.90/wythnos fel oedd i'w weld ym mharagraff 4.8 yr adroddiad.<br>• I rewi'r gyfradd Taliadau Uniongyrchol ar £10.50/awr fel oedd i'w weld ym mharagraff 4.9 yr adroddiad.<br>• I godi tâl o £10/bathodyn yng nghyswllt gweinyddu'r bathodynnau glas a rhoi bathodynnau newydd yn lle rhai a gollwyd.<br>Yn dilyn trafodaeth, fe benderfynwyd argymell i'r Bwrdd Comisiynwyr:<br>• Ei fod yn cymeradwyo Opsiwn 2 yng nghyswllt Lefelau Ffioedd ar gyfer Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol.<br>• Bod yr elfennau ansawdd a sefydlwyd yn parhau i fod yn destun ffi negyddol wahaniaethol o -£36/wythnos fel ar hyn o bryd. | £139,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Bod yr arfer cyfredol i grwpiau client ar wahân i bobl hŷn yn cael ei gadw fel yn y manylion am hynny ym mharagraffau 11 a 12 yr adroddiad<br><br>[Fe gytunodd y Pwyllgor, yn dilyn sylwadau gan aelodau Panel Sgriwtini i argymell i'r Comisiynwyr bod y tâl Gofal Cartref (pobl hŷn) yn cael ei gynyddu 43% i £50 yr wythnos. Mae amcangyfrifon ar hyn o bryd yn nodi y bydd y cynnydd 43% yn dod ag incwm o £139,000 (amcangyfrif)] | |
| | Glasbrint Diogelu Oedolion Bregus | Penderfynwyd –<br>• Derbyn y dyraniad cyllidebol am 2012/13 fel oedd i'w weld yn Atodiad 1 yr adroddiad.<br>• Nodi bod parhau i benodi ymgynghorwyr allanol yn rhywbeth angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwasanaethau atodol yn unol â'r manylion ym mharagraff 2.5 yr adroddiad. | £0 |
| | Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) Cynllun Cyfalaf 2012-2013 | Penderfynwyd –<br>• Dderbyn y dyraniad cyllidebol am 2012-13 fel oedd i'w weld yn Atodiad 1 yr adroddiad.<br>• Nodi bod parhau i benodi ymgynghorwyr allanol yn rhywbeth angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwasanaethau atodol yn unol â'r manylion ym mharagraff 2.5 yr adroddiad. | £0 |
| **26 Mawrth 2012** | Trefniadau Diogelu Oedolion Bregus | Penderfynwyd -<br>• Nodi'r adroddiad a'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â gweithgareddau Diogelu Oedolion yn ystod 2010/11; goblygiadau'r Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol 2012 a'r perfformiad lleol yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol cenedlaethol.<br>• I enwebu'r Cynghorydd Selwyn Williams yn ei gapasiti fel Eiriolwr Pobl Hŷn i arwain ar faterion diogelu. | £0 |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:<br>• Mae Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru yn newid (Cyflwyniad). | D/B | £0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Ardal Ynys Môn (Adroddiad)<br>• Fframwaith Strategol Iechyd Cyhoeddus (Tybaco ac Alcohol) (Adroddiad) | | |
| **23 Ebrill 2012** | Strategaeth Comisiynu Plant | | |
| | Adroddiad AGGCC – Arolygiad Diogelu Plant | | |
| | Cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Plant | | |
| | Archwiliad Maethu Blynyddol 2011 | | |
| | Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl 2012-2013 | | |
| | Anogaeth ariannol ar gyfer Cartrefi Gwag. | | |

**ATODIAD 3**

# Panelau Tasg a Gorffen y Pwyllgorau Sgriwtini

- Effeithiolrwydd Incwm o Ffioedd Lansio a Chofrestru.
- Cynllun Peilot Ynni Mân-ddaliadau.
- Ynni a Dwr yn Adeiladau'r Cyngor.
- Dyraniad Cyllideb Ysgol y Bont 2011-2012
- Adoligiad o Fesurai a Wnaed i fynd i'r afael a Yfed dan oed yn Ynys Mon
- Darpariaeth Toliedau Cyhoeddus yn Ynys Mon
- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol( Blwyddyn 2)
- Ffioedd a Thaliadau yn Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion 2012-2013